Dŵr Cymru
Welsh Water

Y Rheoliadau Dŵr

Gwybodaeth i gadw eich safle amaethyddol yn ddiogel.



Cadw ein dŵr yn ddiogel a'n cwsmeriaid yn fwy diogel byth.

Beth yw'r Rheoliadau?

Mae Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 (y Rheoliadau) yn berthnasol i eiddo sy'n cael cyflenwadau dŵr iach gan Ddŵr Cymru.

Rhain yw'r gofynion cenedlaethol ar gyfer dylunio, gosod a chynnal systemau plymio, ffitiadau dŵr a chyfarpar sy'n defnyddio dŵr ar draws Cymru a Lloegr.

Prif bwrpas y Rheoliadau yw amddiffyn iechyd y cyhoedd trwy atal gwastraff, camddefnydd, defnydd diangen, mesuriadau gwallus ac yn bwysicach na dim, halogiad y dŵr rydym yn ei gyflenwi ar gyfer cwsmeriaid.

Pwy sy'n gorfod cydymffurfio â'r Rheoliadau?

Fel perchnogion neu ddeiliaid eiddo rydym yn eu cyflenwi, rhaid i'n cwsmeriaid gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yma. Rhaid i unrhyw un sy'n gosod neu'n cynnig gosod ffitiadau dŵr gydymffurfio hefyd. Gall methu â gwneud hynny arwain at gamau gorfodi ac erlyniad.

Ymhle mae'r Rheoliadau'n gweithredu?

Mae'r Rheoliadau'n berthnasol i'r holl bibellwaith a ffitiadau o fewn ffiniau eiddo'r cwsmer. Mae hynny'n golygu popeth o'ch pibell gyflenwi hyd at a chan gynnwys unrhyw gyfarpar sy'n defnyddio dŵr o'r prif bibell.

Ardaloedd o risg bosibl ar eich eiddo lle gall ddŵr gael ei halogi.



Rôl Dŵr Cymru

Fel eich cyflenwr dŵr, mae dyletswydd ar Ddŵr Cymru i orfodi gofynion y rheoliadau yn eich eiddo.

Gall ein Rheoleiddwyr gyflawni archwiliadau o'n gwaith o dan ein rôl gorfodi er mwyn sicrhau bod ein dull o weithredu mewn perthynas â'n cwsmeriaid yn gyson ac yn deg, a'i fod yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau. Mae Dŵr Cymru'n cyhoeddi polisi gorfodi ar ein gwefan lle gallwch ddarllen rhagor am ein ffordd o weithio gyda'n cwsmeriaid er mwyn hyrwyddo cydymffurfiaeth ar draws ein hardal gyflenwi.

Categorïau hylif – beth yw'r risg



Rhoddir statws risg o ran Categori Hylif i ffitiadau dŵr a halogyddion hysbys. Mae'r Categori Hylif yn dangos lefel y risg i'r cyflenwad dŵr yfed a'r rhwydwaith ehangach mewn digwyddiad o halogiad.

Rhoddir amddiffyniadau penodol rhag adlif i'r gwahanol gategorïau sy'n amddiffyn y cyflenwad dŵr hyd at y categori penodol hwnnw.

Pwyntiau i'w nodi ar safleoedd amaethyddol

Dyma esiamplau o broblemau a welir wrth gyflawni archwiliadau Rheoliadau Dŵr ar safleoedd amaethyddol. Dylid nodi nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a bod problemau'n amrywio o un safle i'r llall.

1. Cafnau Yfed Anifeiliaid

Am fod cafnau'n agored i'r elfennau, mae yna risg fawr o halogiad gan bethau fel deunydd anifeiliaid neu bryfed. Fel risg categori hylif 5, mae'r gyfraith yn mynnu bod rhaid gosod rwystr addas rhwng dŵr y cafn a'r prif gyflenwad dŵr er mwyn atal risg i'ch eiddo a'r cymunedau cyfagos.

COFIWCH

- Ystyried gosod blwch gwasanaeth ar lefel uwch er mwyn sicrhau bod yna fwlch aer digonol.
- Sicrhau bod y cafn yn wastad a bod y falf pêl yn gweithio.

PEIDIWCH Â

- Gosod unrhyw allfeydd sy'n gallu mynd o dan wyneb y dŵr.
- Gadael i'r cafn orlifo.



Pob darn i gael eu hamddiffyn rhag difrod gan wartheg

2. Tapiau Uno Pibellau Chwistrellu

Mae'r risg bosibl o dap uno pibell chwistrellu'n amrywio, a hefyd categori hylif unrhyw hylifau eraill a allai ddod i gysylltiad â nhw. Er enghraifft, byddai tap uno pibell chwistrellu mewn ardal lle mae llawer o fiswail yn risg categori hylif 5.



Awgrym: Defnyddiwch glipiau dal neu rîl y gellir ei dynnu nôl i ddiogelu'r bibell chwistrellu yn ei lle a'i hatal rhag mynd o dan wyneb yr hylif neu gael ei halogi gan unrhyw beth sydd gerllaw.

Ni ddylid byth rhoi pibellau chwistrellu i orffwys mewn bwcedi, cafnau, draeniau na'u gadael yn gorwedd ar y llawr.

3. Ffynonellau Dŵr Eraill

Mae gan lawer o ffermydd ffynonellau dŵr amgen, fel tyllau turio neu darddellau, sy'n cael eu defnyddio at amrywiaeth o ddibenion. Ni ddylid cysylltu ffynonellau dŵr amgen â'r brif bibell ddŵr yfed yn uniongyrchol.

COFIWCH

Os ydych am ddefnyddio dŵr o'r brif bibell ac o ffynonellau amgen gyda'i gilydd, yr unig ffordd gyfreithlon o wneud hyn sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau yw defnyddio seston â threfniant bwlch aer AA, AB neu AD. Cofiwch ddefnyddio'r tâp marcio cywir (gwyrdd a du) a bwlch aer priodol.

PEIDIWCH Â

Chysylltu dŵr y brif bibell yn uniongyrchol mewn modd lle bydd yn dod i gysylltiad â dŵr preifat, hyd yn oed fel ffynhonnell wrth gefn. Rhaid i unrhyw gyflenwad wrth gefn gael ei gysylltu trwy osodiad bwydo Categori 5 sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau.



Dylid nodi, os codir dŵr at ddibenion dŵr iach trwy'r trefniant hwn, yna rhaid i'r holl bibellwaith a phwyntiau defnydd i lawr y llif o'r trefniant gydymffurfio â'r Rheoliadau Dŵr hefyd.

4. Systemau Dyfrio

Os defnyddir dŵr y brif bibell at ddibenion dyfrio, mae hi'n bwysig bod y system yn cydymffurfio â'r Rheoliadau.

- Fel rheol, ystyrir bod systemau bychain heb ychwanegion yn risg categori hylif 3 a gellir gosod falf ddeuol ar y rhain. Os oes pennau taenellu ar y rhain, yna rhaid eu gosod o leiaf 150mm uwchben y tir. Fel rheol, mae systemau o'r math yma i'w cael mewn gerddi domestig, basgedi crog ac ar randiroedd bychain.

- Fel rheol, ystyrir bod unrhyw systemau mwy, gan gynnwys y rhai a osodir o dan y ddaear, ag ychwanegion neu hebddynt, yn risg categori hylif 5, a byddai angen lefel briodol o amddiffyniad rhag ôl-lif arnynt.

5. Mewnlif ac Ymdreiddiad

Os oes tanwydd neu gemegolion yn gollwng yn agos at bibellau dŵr plastig gallai ymdreiddio i bibellau plastig safonol gan halogi'r cyflenwad dŵr yfed. Er mwyn atal hyn rhag digwydd, dylid defnyddio barbibellau sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau lle bo angen. Mae hyn yn ofynnol ar gyfer gosodiadau newydd lle mae olew neu danwydd yn cael ei storio ar y safle, neu mae'r tir wedi ei halogi eisoes.



Cyflwyno hysbysiad

Ydych chi'n bwriadu ymestyn neu newid eich system blymio annomestig neu amaethyddol? Mae'n bosibl y bydd angen ein hysbysu ni'n gyntaf fel y gallwn ni'ch helpu chi i gadw'ch dŵr yfed yn ddiogel. Cysylltwch â ni i holi.

Osgoi problemau plymio

I osgoi halogiad ar eich cyflenwad dŵr, dylech ddefnyddio ffitiadau sy'n cydymffurfio yn unig. Ni fydd yr holl nwyddau sydd ar werth yn cydymffurfio ar ôl eu gosod yn eu lle, felly dylech sicrhau bod y nwyddau'n bodloni'r safonau priodol bob tro.

Un ffordd o ddangos bod y deunydd yn addas yw chwilio am sêl bendith neu ardystiad annibynnol, fel y rhai a gynigir gan KiWA UK REG4, NSF Reg4 neu WRAS.

Yn ogystal â phrynu ffitiadau sy'n cydymffurfio, rydyn ni'n argymell eu bod yn cael eu gosod gan blymwr WaterSafe.

Pobl broffesiynol cymwys yw'r rhain sydd wedi cyflawni hyfforddiant ychwanegol i ddangos gwybodaeth briodol o'r Rheoliadau, gan leihau'r risg nad yw'ch eiddo'n cydymffurfio a'r gost o unioni'r gwaith.

WaterSafe®
LOCAL APPROVED PLUMBERS

Cyfeiriadur sydd ar gael i'w ddefnyddio'n rhad ac am ddim yw **WaterSafe**. Mae'n cynnig manylion Contractwyr Cymeradwy yn eich ardal chi. Mae'r Sefydliad yn tynnu saith Cynllun Contractwyr Cymeradwy cyfredol y DU at ei gilydd o dan yr un to.

WIAPS

WIAPS yw un o'r saith Cynllun Contractwyr Cymeradwy sy'n gweithredu o dan WaterSafe. Mae aelodaeth o WaterSafe yn rhad ac am ddim i aelodau cyfredol cymwys o'r Cynllun Contractwyr Cymeradwy.

V1 – Ionawr 2021

Cysylltu â ni

I gael rhagor o wybodaeth am y Rheoliadau, croeso i chi gysylltu ag aelod o'n tîm Rheoliadau Dŵr. Mae'r ddogfen hon yn amlygu rhai o ofynion y Rheoliadau'n unig a rhaid i'r holl waith gosod gydymffurfio'n llwyr â'r holl Reoliadau.

Os oes unrhyw gwestiynau gennych am waith gosod penodol neu rywbeth sy'n ymwneud â gorfodi'r Rheoliadau, y peth gorau i'w wneud yw cysylltu â ni'n uniongyrchol.

Gallwch gysylltu â ni trwy e-bost yn:
WaterRegulations@dwrcymru.com

Mae llawer o wybodaeth ddefnyddiol ar gael ar ein gwefan:

www.dwrcymru.com/en/help-advice/water-advice/water-regulations

Gallwch gael gwybodaeth am y Rheoliadau mewn mannau eraill hefyd, fel gan Water Regs UK.

Ffôn: **01495 983010**

Gwefan: **www.waterregsuk.co.uk**

E-bost: **info@waterregsuk.co.uk**

dwrcymru.com